

Sioe Bypedau

Bydd Sioe Bypedau a The Parti Nadolig i blant dan 12 oed yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ddydd Mercher, Rhagfyr 6, ar ôl yr ysgol am 3.30 o'r gloch.

Y tâl mynediad fydd £2 i'r plant, a bydd hynny'n cynnwys y parti ac anrheg gan Sion Corn. Mae croeso i unrhyw blentyn i'r parti, ond mae angen prynu tocyn. Ffoniwch Heather Lynne Jones am docyn a rhagor o fanylion - 07867 982518

Cyhoeddiadau YR OFALAETH

Nos Fercher, Tachwedd 29: Pwyllgor yr Ofalaeth am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 3: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Rhagfyr 3: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Waunfawr. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 5.00 yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd.

CARMEL

Dydd Llun, Tachwedd 27: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Rhagfyr 1: Cynhelir Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 3: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 26

5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Rhagfyr 3

3.30 p.m. - Y Gweinidog

BETHLEHEM

Dydd Iau, Tachwedd 30: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Sul, Rhagfyr 3: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Cledwyn Williams.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 3: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.



Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Rhagfyr 3

10.00 a.m. - Mr John Roberts

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd (Carolau)

Rhagfyr 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

7.00 p.m. - 'Gair yn Gnaud'



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 750: 26 Tachwedd, 2017

Agor llifddorau

Fe agorodd llifddorau'r awyr dros ran helaeth o'r Gogledd ddydd Mercher diwethaf, a chafwyd pnawn a gyda'r nos i'w hanghofio mewn llefydd fel Llangefni wedi i afon Cefni lifo trwy ganol y dref. Clywyd rhai o drigolion y dref yn dweud na welson nhw beth tebyg o'r blaen. Yn gwbl annisgwyl y daeth y dŵr, fel sy'n wir yn aml gyda llifogydd o'r fath.

Gwaetha'r modd, doedd dim annisgwyl ynghylch agor y llifddorau yng Nghaerdydd neithiwr wrth i dîm rygbi Seland Newydd sgorio dau gais yn gynnar yn ail hanner y gêm yn erbyn Cymru. Ac er i'r Cymry atal y llif am gyfnod, dros dro yn unig y bu hynny, a sgoriodd yr ymwelwyr gais arall cyn diwedd y gêm gan sicrhau fod rhaid aros o hyd am yr hir-ddisgwyliedig fuddugoliaeth dros y Crysau Duon.

I'r rhai a fagwyd yng nghyfnod bri'r capeli a'r eglwysi yng Nghymru, yn annisgwyl iawn y daeth y lli a sgubodd o'i flaen y grefydd a fu'n rhan ganolog o fywyd y genedl am flynyddoedd. Ni fyddai'r bobl a welodd y capeli llawn, ac a fu'n rhan o fri'r cymanfaoedd canu a'r gwyliau pregethu wedi dychmygu y deuai'r dydd pan fyddai mwyafrif pobl ein gwlad wedi colli cysylltiad yn llwyr â chapel ac eglwys. Gwaetha'r modd, i ni heddiw does dim annisgwyl mewn gweld y llifddorau'n llydan agored wrth i gapeli, eglwysi a chymaint a fu'n rhan o fywyd crefyddol a diwylliannol ein cenedl edwino a bron ddiflannu o'r tir.

Pe byddem yn sôn yn unig am drai a dirywiad treftadaeth a diwylliant, byddai'n rhesymol tybio ein bod yn gweld tranc y Gristnogaeth a fu mor ddylanwadol yn hanes ein cenedl. Mynd a dod fu hanes diwylliannau'r byd ar hyd y cenedlaethau, wedi'r cwbl. Ond nid am ddiwylliant na threftadaeth, na hyd yn oed grefydd y soniwn, ond am y Ffydd a orosodd dros genedlaethau a chanrifoedd, ac am Waredwr sy'n fyw, ac a fydd yn fyw am byth. Mae'r Ffydd wedi bod dan warchae ar hyd yr oesoedd, ac er gwaethaf erledigaeth ac anghrediniaeth a gelyniaeth mae'r Eglwys wedi profi adnewyddiad a ffyniant newydd o hyd ac o hyd.

Y mae eto obaith sicr i Eglwys Iesu Grist yn ein gwlad. Oherwydd y Duw Byw yw ei Harglwydd, a'r Crist buddugoliaethus yw ei Gwardwr. Mae'n bosibl mai yn annisgwyl y gwêl llawer ryw ddydd y llifddorau'n agor drachefn, a'r Efengyl dan ddylanwad yr Ysbryd Glân unwaith eto'n rym achubol, a phobl yn cyffesu a chlodfori Iesu Grist o'r newydd. Daw'r fendith nefol o bosibl heb ei disgwyl i ambell ardal neu mewn ambell gyfnod. Ond os a phan ddigwydd hynny, mentrwn ddweud nad annisgwyl fydd y fendith i'r bobl dduwiol a fydd wedi bod yn ei cheisio'n weddigar, a hynny o bosibl dros gyfnod maith. Yn lle cwyno am drueni presennol yr Eglwys, dowch i ni geisio trugaredd Duw a llwyddiant yr Efengyl. Pwy a wŷr na ddaw'r fendith honno cyn i ni guro'r Crysau Duon?

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Gwna eu hwynebâu'n llawn
cywilydd, er mwyn iddynt
geisio dy enw, **BEIBL BYW**
O ARGLWYDD. Bydded iddynt aros
mewn gwarth a chywilydd am byth, ac
mewn gwaradwydd difether hwy.
Bydded iddynt wybod mai ti yn unig, a'th
enw'n ARGLWYDD, yw'r Goruchaf dros
yr holl ddaear (Salm 83:16-18).

Heddiw

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am
10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan y Canon Idris Thomas.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30
o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00
o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod
yn dda ar hyn o bryd. Rhwch wybod ar
unwaith os gwelwch yn dda os oes aelod
o un o eglwysi'r Ofalaeth yn yr ysbyty.

Angladd

Yng ngwasanaeth angladd Mrs Nellie
Pritchard, 3 Ffordd Padarn, Llanberis yn
Capel Coch ddydd Mercher diwethaf,
Tachwedd 22 gwasanaethwyd gan y
Gweinidog. Dilynwyd y gwasanaeth
preifat i'r teulu yn y capel gan wasanaeth
byr ym Mynwent Nant Peris. Bu farw
yng Nghartref Plas Pengwaith ddydd
Gwener, Tachwedd 17 yn 97 mlwydd
oed. Roedd yn aelod o'r eglwys yn Nant
Padarn. Cafwyd gwasanaeth i ddiolch
amdani fel mam a chwaer a modryb i'w
theulu. Cydymdeimlwn â'i mab Douglas
yn ei golled. Cydymdeimlwn hefyd â'i
chwaer Hazel, sydd hefyd ym Mhlas
Pengwaith, ac â'i chwaer yng nghyfraith,
Louie yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun
na fedrent fod yn y gwasanaeth.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Bydd Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel
Coch am 7.00 o'r gloch nos Fercher
yr wythnos hon, Tachwedd 29.

Trafodir materion ariannol yr Ofalaeth
yn y pwyllgor. Ac felly, gobeithio
bydd modd cael cynrychiolaeth o bob
eglwys.

Capel Ebeneser HEB EI WERTHU

Adroddwyd yn *Gronyn* yn ddiweddar fod
capel Ebeneser, Deiniolen wedi ei werthu
mewn oscsiwn ddechrau mis Hydref. Yn
ôl amodau'r oscsiwn, roedd rhaid i'r
prynwr dalu blaendal ar ddydd yr oscsiwn
a thalu gweddill yr arian erbyn dyddiad
penodol.

Gan na dderbyniwyd gweddill yr arian
erbyn dydd Gwener, Tachwedd 17,
cawsom wybod gan ein cyfreithwyr na
fydd y gwerthiant yn cael ei gwblhau.
Bydd y darpar brynwr yn colli'r blaendal
a dalodd a'r capel yn aros **heb ei werthu**.

Bydd angen i'r Pwyllgor Capel drafod
beth i'w wneud nesaf er mwyn dod ag
argymhellad i'r aelodau. Ond am y tro,
yr unig beth sydd angen ei ddweud yw
nad yw'r capel wedi ei werthu wedi'r
cyfan.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos,
a diolch i Catrin am ei arwain unwaith
eto. Y tro hwn, 'Diolchgarwch' oedd y
thema, a chyflwynwyd yr hanes am y deg
dyn gwahanglwyfus yn cael eu hiachau
gan Iesu, a'r un yn unig yn diolch.

Parti Dolig CIC

Bydd Coleg y Bala yn cynnal Parti Dolig
CIC yn Y Ganolfan yn Llanberis nos
Wener, Rhagfyr 8.

Mae'r noson ar gyfer clybiau CIC y Gog-
ledd-orllewin. Fe'i cynhaliwyd mewn
gwahanol ardaloedd dros y blynnyddoedd,
ond eleni ni fydd raid i ni logi bws na
theithio'n bell i fod yn rhan o'r hwyl. Yn
amlwg, bydd criw CIC Llanberis yn
mynd yno, ac edrychwn ymlaen at gael
croesawu pawb atom. Bydd y Parti o
6.30 hyd 9.15 o'r gloch.

Ffair Nadolig

Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd
y Ffair Nadolig a gynhaliwyd yn Capel
Coch ddydd Mawrth diwethaf er budd
Cronfa Adnoddau'r Capel. Diolch yn
arbennig i bawb a fu'n paratoi ar gyfer y
ffair, ac i bawb a gyfrannodd at ei
llwyddiant mewn unrhyw fodd.

Gwnaed elw o £602.12.

Gair yn Gnawd

Bydd perfformiad o 'Gair yn Gnawd' yn
Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Sul,
Rhagfyr 10.

Cyfansoddwyd y cyflwyniad cerddorol
hwn gan Linda Gittins, Penri Roberts a'r
diweddar Derec Williams.

Ceir ynddo hanes y Nadolig ar gân.
Caiff ei berfformio gan griw o gantorion
lleol. Mae'r caneuon yn driw i neges y
Beibl am eni Iesu, a bydd felly'n gyfle i
ddathlu'r Nadolig mewn ffordd newydd a
gwahanol.

Mae'r criw yn brysur ymarfer ers diwedd
Medi, ac yn edrych ymlaen yn arw at y
perfformiad.

Bydd tâl mynediad o £5, er mwyn codi
arian at ymdrech Capel Coch at apêl
'Corwynt Cariad' Cymorth Cristnogol ac
Eglwys Bresbyteraidd Cymru, i gefnogi
pobl yn Ynysoedd y Pilipinas.

Mynnwch eich tocyn cyn i'r cyfan gael
eu gwerthu.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mr Rob Evans,
84 Pentre Helen, Deiniolen a fu farw yn
55 mlwydd oed ar Dachwedd 16.

Cynhelir ei angladd yn Eglwys Santes
Helen, Penisarwaun yfory, ddydd Llun,
Tachwedd 27.